# Sut i fwynhau treftadaeth o'r cartref

27/03/2020



An #IsolationCreation project

Rydyn ni wedi llunio rhestr o weithgareddau wedi'u hysbrydoli gan dreftadaeth y gallwch chi eu gwneud o gartref – byddwn ni'n diweddaru'r rhestr, felly daliwch ati i chwilio am bethau newydd.

Rydym wedi bod yn cadw golwg am rai o'r gweithgareddau treftadaeth gwych y gallwch eu gwneud o'ch cartref.

Rydym hefyd wedi dod o hyd i syniadau ein hunain.

Bydd llawer o'n haelodau staff yn cymryd rhan, yn aml gyda theuluoedd wrth eu gwaith, wrth i bob un ohonom addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Rhannwch yr hyn rydych chi'n ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r hashnod #treftadaethogartref.

## Ysbrydoliaeth gan fyd natur – y tu mewn a'r tu allan

**Gwyddom y gall natur fod o fudd enfawr i'n llesiant.**

Os na allwch fynd allan, yna mae bod yn wyrdd o amgylch eich t? hefyd yn gadarnhaol i'r meddwl a'r corff. Gall hyd yn oed delweddau o fyd natur helpu i wella eich hwyliau.

> "Gadewch i ni gefnogi ein gilydd drwy'r cyfnod heriol hwn drwy rannu prydferthwch natur a'r gwanwyn."

Allwch chi weld **treftadaeth naturiol o'ch ffenest**? Oes gennych chi **blanhigion t?**? Rhannwch nhw gyda ni! Beth am gefnogi ein gilydd drwy'r cyfnod heriol hwn drwy rannu prydferthwch natur a'r gwanwyn.



Llun a gafodd ei rannu gan Rhianon Davies, Rheolwraig Marchnata a Chyfathrebu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (Gogledd Lloegr)

Trowch unrhyw le y tu allan – gan gynnwys eich silff ffenestr – yn ardal â **bywyd gwyllt**. Gall pob un ohonom helpu i wneud gwahaniaeth mawr i'r byd naturiol. Er na allwn fynd allan i wirfoddoli, dyma rai pethau hwyliog i'w ceisio gartref.

Mwynhewch ennyd heddychlon gyda **Breakfast Birdwatch** yr RSPB. O 8–9am bob dydd, cadwch olwg am natur y tu allan i'ch ffenestr – a rhannwch yr hyn yr ydych yn ei weld gan ddefnyddio #BreakfastBirdwatch. Dilynwch nhw ar Twitter: @sibirdclub

Beth am wella eich gwybodaeth ar natur? Defnyddiwch eich taith gerdded ddyddiol i **nodi adar a gwenyn** gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfnaint – ac yn ôl gartref, **crëwch eich binocwlars neu'ch gwarchodfa natur fach eich hun**.

**Rhannwch eich atgofion morol** gyda Moroedd Byw Cymru – maen nhw'n casglu straeon am fywyd gwyllt arfordirol Cymru ac yn rhannu digonedd o drigolion môr prydferth ar Twitter a

Facebook.

Gwyliwch ffrwd **fyw sy'n bwydo adar** gyda Transforming the Trent Valley.

## Syniadau a gweithgareddau a ysbrydolwyd gan dreftadaeth

### Creu, gwylio, darllen, gwrando a chymryd rhan – gweithgareddau a ysbrydolwyd gan dreftadaeth y gallwch eu gwneud o'ch cartref.

**Darganfyddwch wrthrychau o amgueddfeydd ledled y wlad** drwy chwilio am #museumsfromhome – Rhannwch eich gwrthrychau eich hun hefyd!

Mae Amgueddfa'r Ashmolean yn chwilio am eich #isolationcreations. Maen nhw'n postio gwrthrych bob dydd ac yn gobeithio gweld unrhyw ymatebion creadigol: **arlunio, barddoni, dawnsio, pobi a mwy**. Dewch o hyd iddynt ar Twitter a Facebook.



Llestr crochenwaith mewn siâp draenog, 1500BC, Abydos, yr Aifft – Amgueddfa'r Ashmolean – yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r #IsolationCreation

**Rhannwch eich straeon am y GIG** gyda'r prosiect 70 GIG. Maen nhw'n creu archif digidol o hanes y gwasanaeth iechyd drwy gofnodi straeon pobl sydd wedi gweithio i'r GIG neu sydd wedi derbyn gofal ganddo ers ei greu yn 1948.

"Rhannwch eich straeon am y GIG gyda'r prosiect GIG yn 70."

Beth am **sgriblo** dyddiol yr Academi Frenhinol? Bob dydd, mae'r oriel yn cynnig pwnc, o weithfannau cartref pobl i "afalau hapus". Rhannwch eich campwaith gyda #RAdailydoodle.

Mae Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr yn herio chwaraewyr gemau sy'n gaeth i'r t? i **greu dyluniadau smoc rhithwir** gyda'u fersiwn nhw o groesfan anifeiliaid  #animerlcrossing

Mae prosiect gwaddol y lili yn adrodd **Straeon Rhyddfrydol Iddewig ar-lein**  – ac  eisiau i chi gymryd rhan.

Mae Bwthyn Mrs Smith yn Navenby, Swydd Lincoln, yn gapsiwl amser i mewn i'r oes a fu. Bydd eu harddangosfa ddigidol gyntaf yn fyw ar 28 Mawrth, ac maen nhw'n dathlu drwy rannu eu heitemau #kitschkitchen arbennig ar Twitter – dewch i gymryd rhan drwy **rannu eitemau cegin eich hun**!



Tu mewn i fwthyn Mrs Smith

Mae Then & Now – 100 mlynedd o brosiec menywod Old Swan yn **hel atgofion a straeon cudd** am fenywod a fu'n byw drwy'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Old Swan, Lerpwl. Derbyn pecyn adnoddau am ddim i gymryd rhan.

# Pethau i'w gwneud i deuluoedd

## Pethau hwyliog a hawdd i'w gwneud i ddiddanu’r teulu.

Gall awduron 5–12 oed ddysgu sut i greu straeon fel Roald Dahl  gyda chwe blog yn ysbrydoli awduron ifanc.

Mae gan yr Amgueddfa Wyddoniaeth lawer o adnoddau am ddim  ar gyfer pethau hwyliog a diddorol yn ymwneud ag eitemau a geir gartref, gan gynnwys **gwneud awyrennau, strwythurau**

**sbageti a gwyddorau cegin...**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lawer o syniadau gwych ar gyfer teuluoedd, gan gynnwys **cwisiau, gwegamerâu byw, tudalennau lliwio a phrosiectau natur.**

Mae gwefan Amgueddfa Mary Rose wedi llunio rhai crefftau hanesyddol hwyliog.



Archwilio arfordir Cymru gyda Moroedd Byw Cymru. Crancod Heglog. Credyd: Dave Peake

Ceisio diddanu Van Gogh bychan gartref? Rhowch gynnig **ar ddetholiad o gemau, cwisiau a syniadau am brosiect celf.**

Gweithgareddau Biggin Hill Memorial Armchair Explorer, yn cynnwys **creu awyrennau a pabi a dylunio cysgod.**

Mae *SS Great Britain* wedi creu gêm ar-lein i blant **ddylunio eu llongau stêm eu hunain.**

**Gwnewch eich campwaith eich hun** gydag Art UK

## Casgliadau ar-lein a theithiau rhithwir

Archwiliwch dros 3,200 o leoliadau yn y DU sy’n cynnwys casgliadau celf gyhoeddus gydag **Art UK.**

Ewch ar daith rithwir o **Amgueddfa ac Oriel Gelf Birmingham**, gan gynnwys **Celc Swydd Stafford** – y celc mwyaf o aur Eingl-Sacsonaidd a ganfuwyd erioed.

Mae gan yr Amgueddfa Bost dros 60,000 o wrthrychau a miloedd o gofnodion sy’n rhychwantu bron i 400 mlynedd o hanes y post.

Mae casgliadau sain y **Llyfrgell Brydeinig** yn cynnwys dros filiwn o ddisgiau, 185,000 o dapiau, a llawer o recordiadau sain a fideo eraill o bob rhan o'r byd.

Chwiliwch **drwy d**oriadau papur newydd, digwyddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd, hanesion llafar, ffotograffau a phosteri **Llyfrgell Menywod Glasgow**. Porwch drwy ei chasgliad hanesyddol LGBT arwyddocaol.

Archwiliwch gasgliadau’r **Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin**, sy'n arddangos rôl Byddin Prydain fel amddiffynnydd, ymosodwr a cheidwad heddwch o ryfeloedd sifil Prydain i'r diwrnod modern.

Gwrandewch ar bodlediadau gyda'r Amgueddfa **V&A,** gyda phynciau'n cynnwys merched anweledig, sglefrfyrddio a modelu ar gyfer Dior.

Ewch i weld arddangosfeydd gorffennol **Hepworth Wakefield** a mynd ar grwydryn rhithwir o amgylch yr oriel.

Archwiliwch gasgliadau **Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Caerefrog**.

Ewch i ymweld ag **Amgueddfa Pitt Rivers** yn Rhydychen – cartref i gasgliadau archeolegol a anthropolegol Prifysgol Rhydychen.

Chwiliwch drwy casgliadau'r **Amgueddfa Ryfel Imperialaidd**– 800,000 o eitemau sy'n adrodd hanes rhyfel a gwrthdaro modern, a gasglwyd gan yr amgueddfa ers 1917.

Gellir ymweld â'r **Amgueddfa Hanes Naturiol** ar-lein mewn rhith daith.

## ddordeb hefyd mewn ...

Ein cefnogaeth i'r sector treftadaeth mewn ymateb i argyfwng coronafeirws



Sut y byddwn yn helpu'r gymuned dreftadaeth yn ystod pandemig

Lansio Cronfa Argyfwng Treftadaeth i helpu'r sector